PWYLLGOR CRAFFU'R ECONOMI A DIWYLLIANT

DYDD IAU, 7 RHAGFYR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ebrahim, Gordon, Parkhill, Robson a/ac Sattar |

30 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDENB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cynghorwyr Gavin Hill-John a Stubbs.
Roedd y Cynghorwyr Ebrahim a Parkhill eisoes wedi dweud y byddent yn cyrraedd yn hwyr.

31 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Robson fuddiant personol yn Eitem 5 fel Cyfarwyddwyr Anweithredol Bws Caerdydd.

32 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

33 : PARTNERIAETH RHEOLI HAMDDEN – GLL/CYNGOR

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Peter Bradbury, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, Jon Maidment, Rheolwr Gweithredol – Parciau a Chwaraeon – Rheolwr Gwasanaethau Cleient Hamdden, Juliette Dickinson (Cyfarwyddwr Rhanbarthol GLL) a Dawn Pinder (Rheolwr Partneriaeth GLL) i'r cyfarfod.

Cafodd aelodau wybod flwyddyn yn ôl fod y Cyngor wedi mynd i bartneriaeth 15 mlynedd â GLL (Greenwich Leisure Limited) a ddaeth yn gyfrifol am redeg 8 canolfan hamdden yng Nghaerdydd. Galluogodd yr eitem hon i Aelodau werthuso'r cynnydd a wnaed yn y flwyddyn gyntaf. I helpu i lywio'r gwaith craffu, roedd y Cadeirydd wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg i ofyn i ddefnyddwyr Canolfannau Hamdden gysylltu ag ef â'u harsylwadau. Cafodd y Cadeirydd dros 70 ymateb, drwy e-bost ac ar y cyfryngau cymdeithasol, yn codi pryderon a materion a nodi gwelliannau. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau y byddai'n sicrhau y câi'r rhai neu rhannu'n ddienw â'r mynychwyr gan eu bod yn rhoi cipolwg defnyddio ar bryderon cwsmeriaid.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle dywedodd taw'r eitem hon oedd y bwysicaf gan y Gwasanaetha Hamdden i ddod gerbron craffu ers peth amser. Nodwyd bod mwyafrif y manylebau a'r her i gyflawni'r dim cymhorthdal wedi'u pennu ar y cyd â chytundeb y pwyllgor blaenorol. Credai'r Aelod Cabinet fod y pwyllgor wastad wedi bod yn ymarferol ac wedi bod yn ddefnyddiol iawn yn y broses ac roedd yn falch bod y Cadeirydd wedi ceisio adborth; byddai'n sicrhau yr heriai GLL ar y materion a godwyd.

Ychwanegwyd ar hyn o bryd eu bod ar gam cynnar contract 15 mlynedd a bod her i leihau'r cymhorthdal i lawr ond wrth fynd ymlaen bod datblygiad cadarnhaol yn dod ar ffurf Buddsoddi a Rhaglennu Cyfalaf.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y bartneriaeth Rheoli Hamdden rhwng GLL a'r Cyngor ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am aelodaeth Atgyfeiriad Meddyg Teulu a rhoddwyd gwybod ei fod yn dechrau ar ôl cynllun atgyfeirio 16 wythnos. Roedd yn aelodaeth raddedig 3 blynedd â delir yn rhannol yn y flwyddyn gyntaf; nod ymaelodi oedd annog defnydd rheolaidd o'r gampfa i gynorthwyo â gwelliant cleifion.

- Cyfeiriodd Aelodau at gau caffis canolfannau hamdden a chredid bod y caffis wedi creu ymdeimlad o gymuned i gwsmeriaid ar ôl eu sesiynau ac i rieni sy'n aros am blant i fynychu gwersi nofio ac ati.
  Gofynnodd aelodau p'un a fyddai dyfodol i gaffid mewn canolfannau hamdden. Dywedodd yr Aelod Cabinet petai'r gwasanaeth wedi aros yn fewnol byddai'r caffis wedi cau am eu bod yn derbyn cymhorthdal mawr ac fe'u beirniadwyd am werthu bwyd afiachus. Ychwanegodd fod gan y caffis hefyd gystadleuaeth ar ffurf caffis mewn Hybiau a Chaffis Cymunedol.

  Dywedodd Juliette Dickinson ei bod yn bechod gorfod gwneud y penderfyniad, taw prin iawn yw'r caffis canolfannau hamdden sy'n mantoli eu cyllideb. Roeddent yn colli tua £100,000 y flwyddyn felly fe'u caewyd yn amharod. Petai caffi'n cael ei ailgyflwyno'n y dyfodol byddai'n un o'r canolfannau hamdden mwy. Ar hyn o bryd mae GLL yn edrych ar beiriannau gwella gydag opsiynau gwell ac iachach.

- Nododd yr aelodau'r ymrwymiad i fwyta'n iach ac annog gweithgareddau ond nid oeddent yn siŵr sut y cyfatebai â chyfyngu mynediad pobl ifanc i'r campfeydd gyda'r nos a phobl ifanc yn gorfod cadw lle ymlaen llaw. Cafodd yr aelodau wybod ei fod yn bolisi i beidio â chael rhai dan 16 oed yn y gampfa heb oruchwyliaeth felly cyfyngid ar fynediad i sesiynau wedi'u goruchwylio gan y teimlid bod hyn yn well i'r gwasanaeth ac am resymau iechyd a diogelwch. Ehangwyd y grŵp oedran i gynnwys y rhai 11-15 oed, ond petai wir alw yna câi nifer y sesiynau wedi'u goruchwylio eu cynyddu.

- Gofynnodd yr aelodau am effaith cau'r caffis ar staff a chawsant wybod bod y mwyafrif o'r staff wedi ymddiswyddo'n wirfoddol a bod 1 wedi'i adleoli. Roedd y rhan fwyaf o'r caffis ond canolwyd rhai gwasanaethau cefn tŷ hefyd.

- Gofynnodd aelodau am lefelau salwch a chawsant wybod eu bod wedi eu lleihau gan 50%, a bod hyn wedi golygu bod oriau salwch wedi'u lleihau o 3000 i 1500, a nodwyd o'r 13 cyflogai a "etifeddwyd" ar salwch hirdymor, bod 11 bellach wedi dychwelyd i'r gwaith.

- Cyfeiriodd Aelodau at y diffyg cymhorthdal a gofynnwyd a oedd GLL yn mynd â'r maen i'r wael wrth gyflawni hyn.
  Cawsant wybod yn y flwyddyn eu bod fymryn yn is na hynny ond disgwylid hynny ym mlwyddyn gyntaf contract newydd; roedd cynllun pum mlynedd i fynd i sefyllfa di-gymhorthdal.

- Gofynnodd aelodau am wybodaeth fanylach am ganlyniadau'r arolwg Better, a chawsant wybod y gallai hyn gael ei rhoi iddynt.

- Gofynnodd aelodau am eglurhad o ba un a oedd Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi'i waredu a chawsant wybod nas gwaredwyd, bod sesiynau penodol wedi'u cynnal ym Maendy ond prin oedd y rhai a fanteisiodd arnynt; gallai Aelodau Cyfamod y Lluoedd Arfog o hyd nofio ar unrhyw adeg mewn unrhyw ganolfan sy'n rhan o'r cynllun.

- Trafododd aelodau ledaeniad firysau a ledwyd gan waed a chawsant wybod bod cyfundrefnau glanhau llym ar waith gyda chemegion priodol yn cael eu defnyddio.

- Cyfeiriodd Aelodau at y taliadau ar y Cerdyn Actif Iau a'r dosbarthiadau y gellir mynd iddynt gydag ef, a gofynnwyd a oedd y Cyngor wedi cynnal Asesiad O'r Effaith Ar Gydraddoldeb i asesu'r effeithiau a gâi'r newidiadau hyn. Gofynnodd Aelodau ymhellach a oedd gofyniad contract i GLL gynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol. Cafodd Aelodau wybod nad oes yn rhaid i GLL gynnal AEAau ond nodwyd bod mynediad a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn y maen nhw'n ei wneud. Nodwyd bod y Cerdyn Actif Iau yn rhoi gormod i ffwrdd a bod pobl a ymunodd yn ddiweddarach yn cael llai o fudd. Eglurwyd y flwyddyn nesaf ei bod yn debygol y câi prisiau consesiynol eu cyflwyno, gan dargedu pobl sydd eu hangen, gyda'r rhai sydd ddim yn gymwys yn talu prisiau llawn. Eglurwyd hefyd bod GLL yn ystyried ategiad a fyddai'n lleihau pris ail gwrs. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod y Cerdyn Actif Iau wedi'i dynnu'n ôl i aelodau newydd gan fod pobl yn cofrestru â gormod o ddosbarthiadau ac yna ddim yn eu defnyddio a achosai broblemau â niferoedd dosbarthiadau a staffio dosbarthiadau. Nodwyd y gallai cyfathrebu fod yn well yn y dyfodol a thaw hon oedd blwyddyn gyntaf contract hirdymor a bod gwersi'n cael eu dysgu.

- Gan gyfeirio at gyfathrebu, gofynnodd Aelodau a oedd cynlluniau i edrych ar sut mae GLL yn cyfathrebu â'i gwsmeriaid o ran rhoi gwybod am ganslo dosbarthiadau a chysylltu â phobl oedd â phryderon neu sydd wedi cwyno. Cafodd aelodau wybod pan gaiff dosbarthiadau eu canslo fod hynny'n digwydd ar fyr rybudd a bod yn rhaid i GLL ddefnyddio unrhyw ddull posibl i gyfleu'r neges hon, gan ddweud y gall fod yn eithaf anodd gyflenwi dosbarthiadau yn enwedig rhai arbenigol fel Ioga. O ran cwynion a phryderon cwsmeriaid, cafodd Aelodau wybod bod GLL yn awyddus i gael adborth gan gwsmeriaid, ond pan adawir sylwadau ar wefan ganolog GLL gall gymryd cryn amser i gysylltu â'r bobl gywir. Dylai adborth cwsmeriaid fynd i Reolwr y Ganolfan Hamdden yn yr achos cyntaf, roedd GLL yn awyddus i edrych ar drefniadau lleol o ran hyn. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet ei fod wedi siarad â GLL a bydd Tîm Cyfathrebu'r Cyngor yn gweithio'n fwy gyda Twitter ac ati yn y dyfodol.

- Gofynnodd Aelodau a oedd unrhyw gynlluniau mawr i wneud gwelliannau amgylcheddol mawr fel paneli solar mewn Canolfannau hamdden. Cafodd aelodau wybod y byddai Juliette Dickinson yn ymdrechu i gael gwybod am hyn, ond cawsant wybod taw prif bwyslais y flwyddyn nesaf fydda buddsoddi

mewn goleuadau, diweddaru goleuadau LED effeithlon mewn Canolfannau Hamdden.

PENDERFYNWYD y câi barn y pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai’r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

34 : CREU’R ORSAF FYSIAU NEWYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu a Neil Hanratty, Cyfarwyddwr yr Economi a Datblygu i’r cyfarfod.

***Cynigiodd y Cadeirydd wneud y cyflwyniad a'r drafodaeth yn ymwneud â'r eitem hon yn sesiwn gaeedig gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn rhinwedd paragraff 14 rhan 4 a pharagraff 21 rhan 5 atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

***Cynigiodd y Cadeirydd y dylai’r pwyllgor benderfynu gwahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod ar hyn o bryd.***

PENDERFYNWYD y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai’r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

35 : ASTUDIAETH O DDICHONOLDEB GORSAF CAERDYDD CANOLOG

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu a Neil Hanratty, Cyfarwyddwr yr Economi a Datblygu i’r cyfarfod.

***Cynigiodd y Cadeirydd wneud y cyflwyniad a'r drafodaeth yn ymwneud â'r eitem hon yn sesiwn gaeedig gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn rhinwedd paragraff 14 rhan 4 a pharagraff 21 rhan 5 atodlen 12a Deddf Llywodraeth Leol 1972.***

***Cynigiodd y Cadeirydd y dylai’r pwyllgor benderfynu gwahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod ar hyn o bryd.***

PENDERFYNWYD y câi barn y Pwyllgor ei thrafod yn ystod y rhan o'r cyfarfod lle byddai’r ffordd ymlaen yn cael ei thrafod ac y câi llythyr ei anfon at yr Aelod Cabinet maes o law.

36 : BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddodd yr adroddiad hwn adroddiad diweddaru gohebiaeth i Aelodau, diweddariad ar fonitro perfformiad a’r gyllideb a cheisiai farn Aelodau ar sut roedden nhw am gysylltu â’r Papur Gwyrdd Buddsoddi a Datblygu a lansiwyd yn ddiweddar.

PENDERFYNWYD: Dylid

i. nodi cynnwys y llythyrau yn Atodiad A yr adroddiad; ac

ystyried y Papur Gwyrdd Buddsoddi a Datblygu fel brîff yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

37 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF.

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu'r Economi a Diwylliant ar 11 Ionawr 2018.